Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coedwigoedd **Ceredigion** Forests

# Gelli Ddu | Black Covert
# Coed Allt Fedw | Birch Grove Wood




Nodweddir sir hynafol Ceredigion gan ei harfordir ysblennydd, ei hucheldir anghysbell, ei gwlyptiroedd gwych a dyffrynnoedd dwfn ei hafonydd.


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o ofalu am ambell drysor gwirioneddol yn y rhan dawel hon o Gymru sy'n frith o olygfeydd dramatig.

The ancient county of Ceredigion is characterised by its stunning coastline, remote upland landscape, wonderful wetlands and deep river valleys.

Natural Resources Wales is proud to look after some real gems in this scenically dramatic yet tranquil part of Wales.



Golygfa o Fwlch Nant yr Arian i Aberystwyth a Bae Ceredigion
View from Bwlch Nant yr Arian towards Aberystwyth and Cardigan Bay




## Llwybr Glan yr Ystwyth
## Ystwyth Riverside Walk

**Hawdd | Easy**

Pellter | Distance: 1¼m | 2km
Amser | Time: 1 awr | hour
Dringo | Climb 17tr/ft | 5m


UCHAFBWYNTIAU: **Taith ysgafn ar hyd afon Ystwyth sy'n dychwelyd drwy goedwig sy'n llawn arogl resin. Mae clychau'r gog yn gorchuddio'r ddaear o dan y coed ffawydd yn y gwanwyn ac mae yna lawer o ffyngau yn yr hydref. Efallai y byddwch ddigon ffodus i gael cip ar las y dorlan yn gwibio heibio.**

DISGRIFIAD: Mae'r llwybr yn rhwydd ond byddwch yn dod ar draws rhai grisiau a gwreiddiau. Bydd yr arwyneb yn arw ac efallai'n wlyb mewn mannau. Argymhellir esgidiau cerdded sydd â gafael dda. Nid oes dringfeydd dros 17tr / 5m. Bydd angen lefel resymol o ffitrwydd ar gyfer y llwybr hwn.

HIGHLIGHTS: **A gentle walk alongside the river Ystwyth returning through woodland filled with the scent of resin. Bluebells carpet the ground under the beech trees in spring and there are lots of fungi in the autumn. You may even catch the lightning streak of a kingfisher hunting along the river.**

DESCRIPTION: Easy, but the trail does contain some steps and roots. The surface will be rough and possibly wet in places. Walking shoes with a good grip recommended. There are no climbs over 17ft / 5m. You need a reasonable level of fitness for this walk.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




## Llwybr Marchogaeth Allt Fedw
## Birch Grove Horseride

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 3½m | 5.5km
Amser: 1 awr o gerdded
Time: 1 hour at a walk


UCHAFBWYNTIAU: **Mwynhewch amrywiaeth o arwynebau, coetiroedd ac ardaloedd agored ar y llwybr hwn, sydd â golygfeydd pell y tu hwnt i'r coetir.**

DISGRIFIAD: Ar ôl cychwyn ar ffordd goedwig, yn y man byddwch yn mynd drwy giât at lwybrau meddal. Ar ôl rhan sy'n esgyn yn serth (tua 70m o hyd), byddwch yn dal i ddringo ar dir llai serth nes ichi gyrraedd pwynt uchaf y llwybr ger bryngaer Allt Fedw. Oddi yno, mae rhagor o lwybrau meddal tan y pwynt hanner ffordd – ac wedi hynny, byddwch yn dilyn ffordd goedwig yr holl ffordd yn ôl i'r man cychwyn. Gall y llwybr fod yn fwdlyd a llithrig mewn mannau.

HIGHLIGHTS: **Enjoy a variety of surfaces, woodlands and open areas on this trail. Take in distant views beyond the woodland.**

DESCRIPTION: After starting out on a forest road you'll soon go through a gate onto soft trails. After a steep section of climb (about 70m long), you'll keep on climbing less steeply until you reach the highest point of the trail near the Allt Fedw hillfort. From there more soft trails await you until you reach the halfway point – after which follow a forest road all the way back to the start. The trail can be muddy and slippery in places.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




## Llwybr Coed Allt Fedw
## Birch Grove Woodland Walk

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 2m | 3.6km
Amser | Time: 1½ awr | hours
Dringo | Climb 400tr/ft | 120m


UCHAFBWYNTIAU: **Llyn deniadol a bryngaer Allt Fedw sy'n 2000 o flynyddoedd oed. Yma gallwch edrych ar y golygfeydd panoramig ar hyd bryniau a dyffrynnoedd tonnog y holl ffordd i Bumlumon, sef mynydd uchaf Canolbarth Cymru.**

DISGRIFIAD: Llwybr cymedrol gyda rhai dringfeydd hir a disgyniadau serth. Bydd yr arwyneb yn arw ac efallai'n wlyb mewn mannau. Argymhellir esgidiau cerdded sydd â gafael dda. Bydd angen lefel dda o ffitrwydd ar gyfer y daith gerdded hon.

HIGHLIGHTS: **An attractive pond and the 2000 year-old hillfort of Allt Fedw. From there you can take in panoramic views across rolling hills and valleys all the way to Mid Wales' highest mountain, Pumlumon.**

DESCRIPTION: A moderate walk with some long climbs and steep descents. The surface will be rough and possibly wet in places. Walking shoes with a good grip recommended. You need a good level of fitness for this walk.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




# Lle braf i ffesantod a phobl

**Croeso i Gelli Ddu yng Nghwm Ystwyth, a enwyd ar ôl Ystad Trawsgoed, yr oedd unwaith yn rhan ohoni.**

Ystyr 'covert' yn yr enw Saesneg Black Covert, yw ardal i fagu adar helwriaeth, ac yn yr achos yma ffesantod gan fwyaf.

### Beth allwch chi ei wneud yma?

Gallwch fwynhau picnic ger Afon Ystwyth o dan gysgod y coed mawr. Mae gennych ddewis o ddau lwybr cerdded - **Llwybr Glan yr Ystwyth** sy'n ysgafn neu **Lwybr Coed Allt Fedw** sy'n anoddach. Mae yna lwybr marchogaeth hefyd.


# A pheasant place to walk

**Welcome to Black Covert in the Ystwyth Valley, which got its name from the Trawsgoed (Crosswood) Estate it was once part of.**

A 'covert' is an area for raising game, in this case most likely pheasants.

### What can you do from here?

Enjoy a picnic sheltered under large ash, birch and sweet chestnut trees with the Afon Ystwyth rushing by. You can either do the gentle **Ystwyth Riverside Walk** or try the more strenuous **Birch Grove Woodland Walk** in the neighbouring woodland. There's also a trail for horseriders.



Afon Ystwyth | River Ystwyth

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

| | |
|---|---|
| parcio / parking | parcio hygyrch / accessible parking |
| toiledau / toilets | hygyrch / accessible |
| lle picnic / picnic area | maes chwarae / play area |
| caffi / café | llwybrau beicio / bike trails |
| llwybr cyhoeddus / public footpath | llwybr marchogaeth / bridleway |
| llwybrau hygyrch / accessible trails | gwybodaeth / information |
| sgwd (rhaeadr) / waterfall | golygfan / viewpoint |
| llwybrau cerdded / walking trails | llwybrau marchogaeth / horse riding trails |
| mainc / bench | ffyrdd coedwig / forest roads |
| ffin coedwig CNC / NRW forest boundary | |

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government